# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 25 Mawrth 2019

Amser: 13.20 - 15.30

# Cyfarfod preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC |
| Tystion: | Andrew Slade, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Munday, Llywodraeth Cymru |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru: | Adrian Crompton - Swyddfa Archwilio Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher<br>Deryck Evans |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Vikki Howells AC, Neil Hamilton AC ac Adam Price AC. Nid oedd dirprwyon.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

**2.1 Y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (28 Chwefror 2019)**

**2.2 Addasiadau Tai: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (1 Mawrth 2019)**

**2.3 Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (5 Mawrth 2019)**

**2.4 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (14 Mawrth 2019)**

**2.5 Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (13 Mawrth 2019)**

**2.6 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Gwybodaeth ychwanegol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru (18 Mawrth 2019)**

## 3 Craffu ar Gyfrifon: Papur briffio gan Lywodraeth Cymru

3.1 Cafodd yr aelodau bapur briffio gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar warantau ac atebolrwydd amodol fel y'u cofnodwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2017-18.

## 4 Rheoli Ariannol a Llywodraethu mewn Cynghorau Cymuned: Papur briffio gan Swyddfa Archwilio Cymru

4.1 Cafodd yr Aelodau eu briffio gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ar Gynghorau Tref a Chymuned.

4.2 Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru, a bydd hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn rhoi gwybod iddynt am y papur trafod.

## 5 Caffael Cyhoeddus: Ystyried y llythyr drafft

5.1 Trafododd yr Aelodau y llythyr drafft a chytunwyd arno, yn amodol ar weld yr ohebiaeth a oedd yn codi pryder ynghylch cydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

## 6 Adolygiad Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Gwersi a Ddysgwyd: Trafod materion allweddol

6.1 Trafododd yr Aelodau y materion allweddol a godwyd drwy gydol yr ymchwiliad a chytuno ar feysydd i'w cynnwys yn Adroddiad y Pwyllgor.

## 7 Rheoli apwyntiadau dilynol cleifion allanol ar draws Cymru: Trafod materion allweddol

7.1 Trafododd yr Aelodau'r meysydd yr oeddent am eu cynnwys yn y papur briffio ar gyfer y sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill.

## 8 Gwasanaeth gofal sylfaenol y tu allan i oriau: Trafod materion allweddol

8.1 Trafododd yr Aelodau y meysydd yr oeddent am eu cynnwys yn y papur briffio ar gyfer y sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill.

## 9 Blaenraglen Waith: Trafod y flaenraglen waith ar gyfer tymor yr haf 2019

9.1 Trafododd yr Aelodau Flaenraglen Waith y Pwyllgor ar gyfer tymor yr haf 2019 a chytunwyd arni.